**Uwchradd**

**Crynodeb o hunan arfarniad Addysg Grefyddol yn Ysgol Dyffryn Nantlle**

(Gweler canllawiau pynciol Ffeil Hunan Arfarnu CYNNAL 2005)

## Cwestiwn 1 : Pa mor dda mae dysgwyr yn cyflawni?

- Mae hunan arfarniad yn seiliedig ar arsylwadau, gwersi, arfarniad o waith disgyblion, cyfweliadau â disgyblion a dadansoddiad o asesiadau athrawon a/neu canlyniadau arholiadau.
- Dylid cyfeirio at CA3, CA4 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol), CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol)

## Barn gryno am brif gryfderau cyflawniad y dysgwyr Gradd: 2

| | | |
|---|---|---|
| **1. Llwyddiant disgyblion mewn:** | Mae canlyniadau arholiad yr Adran yn cymharu'n ffafriol â phynciau allgraidd eraill yr Ysgol. | Adroddiad Hunan- Arfarnu Canlyniadau |
| a. Canlyniadau profion/arholiadau allanol | **CA3:** Bu cynnydd yn y tair blynedd diwethaf yn y ganran o ddisgyblion yn cyrraedd lefel 5+ yn y pwnc, ac yn cymharu'n ffafriol â'r Dyniaethau eraill, e.e, yn 2008<br>• Canran 5+ (80) yn uwch na'r Dyniaethau eraill - Daearyddiaeth (77); Hanes (74).<br>• Canran 5+ y merched yn uwch (87.3) na'r bechgyn (71.1).<br>• Sgôr cyfartalog (5.30) yn uwch na sgôr y Sir (5.15) a sgôr Cynnal (5.09)<br><br>**CA4:** Roedd sgôr cyfartalog y pwnc yn uwch na'r cyfartaledd yn 2008: (4.82) sydd fymryn yn uwch na Daearyddiaeth (4.80) ac yn rhagori ar sgôr Hanes (3.78). Sgôr y merched (4.91) yn uwch rhywfaint na'r bechgyn (4.67).<br>Mae'r canran sy'n ennill graddau A*-C yn gyson dda gyda 79% yn llwyddo yn 2009. Mae hyn yn cyfiawnhau dysgu'r cwrs mewn dwy ran (cwrs byr a chwrs byr pellach) sydd yn ysgafnhau baich arholiadau ym Ml. 11.<br><br>**CA5:** Yn 2008**,** 75% yn ennill graddau A-C UWCH (1xB; 2xC) ac UG yn 1xD.<br>Oherwydd gwaeledd dyfarnwyd amcanradd **'**E' i'r unig ddisgybl a safodd lefel A eleni:. Ym Ml. 12, llwyddodd 50% i gael graddau A-C (1xA; 1xB; 2xC). | Canlyniadau'r Ysgol |
| b. Y safonau pynciol a welir mewn gwersi a/neu mewn gwaith y disgyblion | Cafwyd ymateb cadarhaol gan yr UDR ar y safonau pynciol yn ôl yr adroddiadau a wnaed ar y gwersi a arsylwyd yn ystod y flwyddyn. Dengys y disgyblion ddealltwriaeth da o'r pynciau dan sylw ac fe adlewyrchir hyn yn eu cyflawniad. Defnyddiant ystod eang o dechnegau i gwblhau tasgau amrywiol a heriol.<br><br>Cafwyd ymateb cadarnhaol gan yr UDR o ganlyniad i'w monitor hwy o lyfrau gwaith disgyblion yn ystod y flwyddyn. | Adroddiadau monitro gwersi (UDR ac Adrannol)<br><br>Monitro gwaith plant |
| c. Safonau yn y sgiliau allweddol<br>• Cyfathrebu (siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu)<br>• Rhifedd<br>• TGCh | Darperir cyfleoedd bwriadus i'r disgyblion ddatblygu ar eu sgiliau allweddol yn y gwersi yn y tri Cyfnod Alweddol. Ar y mwyaf, fe wneir yn glir yn y gwersi pa sgiliau alweddol penodol fydd yn cael sylw (Cyfathrebu fel arfer, ond mae creu graff bywyd yn ateb gofynion Rhifedd; mae TGCh wastad yn cael sylw mewn tasgau gwaith cartref a sesiynau yn yr ystafell gyfrifiaduron) | Cynlluniau Gwaith<br><br>Llyfrau gwaith plant |

## Pa agweddau fydd yn derbyn sylw yr adran am y ddwy flynedd nesaf?

- Creu mwy o gyfleoedd yn y gwersi i ymarfer a datblygu sgiliau fel a welir yn y *Fframwaith Enghreifftiol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddisgyblion 3-19 oed yng Nghymru.*
- Targedu bechgyn canolig eu gallu CA3 er mwyn iddynt gyrraedd lefel 5+ erbyn diwedd Bl.9.
- Mwy o ymgynghori â disgyblion i greu tasgau diddorol a symbylus.
- Parhau i ddatblygu ar egwyddorion 'Asesu ar gyfer Dysgu' a 'Dysgu i Ddysgu'.
- Parhau i fonitro a thargedu tangyflawni er mwyn codi safonau.
- Gwneud ac elwa mwy o gysylltiadau â'r gymuned leol.
- Gwahodd rhagor o unigolion o asiantaethau dyngarol i siarad a gweithio gyda disgyblion.
- Parhau i greu mwy o adnoddau ar gyfer cysylltu â'r Cwricwlwm Cymreig.

## Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.

**Cwestiwn 2 : Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

- Mae hunan arfarniad yn seiliedig ar arsylwadau gwersi, arfarniad o waith disgyblion, cyfweliadau â disgyblion a gwerthusiad o gyfnodau addoli ar y cyd a gwersi ABCh.
- Disgwylir cyfeiriad yma at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion.

**Barn gryno am ansawdd y ddarpariaeth — Gradd : 2**

(i) Mae'r Adran wedi cofleidio'r dull amlsynhwyrol o ddysgu Addysg Grefyddol ers chwe blynedd bellach, gyda'r pwyslais ar roi profiadau i ddisgyblion sydd yn hyrwyddo datblygiadau ysbrydol, personol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.

(ii) Mae arweinydd yr adran wedi trefnu teithiau i fannau addoli gwahanol grefyddau (e.e., cadeirlannau Lerpwl, Canolfan Fwdhaidd Manceinion a synagog/amgueddfa Iddewig ym Manceinion). Yn 2006 trefnwyd taith i wersyll crynhoi Auschwitz a rhanbarth Iddewig dinas Krakow. Bwriedir trefnu taith gyffelyb yno yn 2010).

(iii) Trefnodd a chydlynodd arweinydd yr adran ddiwrnod cofio'r Holocost yn Ionawr 2009; manteisir hefyd ar drefniadau ysgol-gyfan fel y diwrnod Masnach Deg, a'r ras flynyddol 'o Gôt i Gôt' er enghraifft.

(iv) Mae'r adran yn darparu testunnau pynciol ar gyfer yr eisteddfod ysgol flynyddol.

(v) Caiff gwaith ei wneud ar stiwardiaeth, cyfrifoldeb dynoliaeth am yr amgylchfyd; hawliau dynol a hawliau anifeiliad; a'r Holocôst yn CA3 a CA4.

(v) Fe astudir Athroniaeth Crefydd yn CA5 sydd yn annog ymdrin â chwestiynau mawr bywyd.

(vi) Rhoddir cyfle i ddisgyblion weithio'n annibynol, mewn parau ac mewn grwpiau er mwyn hyrwyddo sgiliau cymdeithasol, 'gweithio gydag eraill', a derbyn cyfrifoldeb am eu dysgu.

(vi) Gwneir defnydd o ffeil adnoddau Cwricwlwm Cymreig i'r disgyblion allu perchnogi eu hetifeddiaeth ddiwylliannol.

**Pa agweddau fydd yn derbyn sylw yr ysgol dros y flwyddyn nesaf?**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cwbwlhau'r arfarniad** | **18 Medi, 2009** |
| **Arwyddwyd: (Pennaeth)** | |